



Prentisiaethau Apprenticeships



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Prentisiaethau

colegcaredigion



UNDAE EWRDDEITHASOL
EUROPEAN SOCIAL FUND



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mae'r Rhaglenni Prentisiaeth, Hyfforddeiaeth a Thwf Swyddi Cymru, a arweilir gan Llywodraeth Cymru, yn cael cymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.



Cynnwys

Pa Brentisiaethau sydd ar gael?	3
Rhaglenni Hyfforddiant Prentisiaeth	4
Buddion ar gyfer Prentisiaid	5
Buddion ar gyfer Cyflogwyr	5
Pa gymorth fyddaf yn ei gael?	6
Sut i wneud cais am Brentisiaeth?	6
Gweithio eich ffordd i Brentisiaeth	7

Pa Brentisiaethau sydd ar gael?

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Prentisiaethau yng Nghymru gan eu bod yn adeiladu sail sgiliau hanfodol ein gwlad ar gyfer y dyfodol. Mae 81% o fusnesau yn dweud bod cyflogi prentisiaid yn gwneud eu gweithle yn fwy cynhyrchiol. Mae prentisiaid yn gallu gwneud pethau mawr ar gyfer eu cyflogwyr ond maent angen y cyfle i weithio a hyfforddi. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau'r hyfforddiant allanol, sy'n gadael y cyflogwyr i dalu am gyflog y prentis yn unig.

Mae prentisiaethau yng Nghymru yn agored i bawb, ar gyfer dysgwyr ifanc a'r rhai sydd am newid eu llwybr gyrfa. Rhaid i brentisiaid fod mewn gwaith ac mae'n rhaid bod ganddynt yr ymrwymiad a'r dyfalbarhad i lwyddo.

Mae hyd Prentisiaeth yn amrywio yn dibynnu ar y cymwysterau sydd gennych yn barod a'r cymhwyster rydych yn gweithio tuag ato. Yn gyffredinol, mae Prentisiaethau yn cymryd rhwng 1 a 4 blynedd i'w cwblhau ac maent ar gael ar dair lefel wahanol fel eu bod yn addas i'r holl ddysgwyr.

Prentisiaethau Sylfaen

Byddwch yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu yn y gweithle sy'n gyfwerth â NVQ Lefel 2.

Prentisiaethau

Byddwch yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu yn y gweithle sy'n gyfwerth â NVQ Lefel 3.

Prentisiaethau Uwch

Byddwch yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu yn y gweithle sy'n gyfwerth â NVQ Lefel 4 / 5, Gradd Sylfaen neu Radd Anrhydedd.

Rhaglenni Hyfforddiant Prentisiaeth

Amrywiaeth o brentisiaethau ar gael yn y meysydd canlynol:

- ◆ Cyfrifeg
- ◆ Amaethyddiaeth
- ◆ Gofal Anifeiliaid
- ◆ Peirianeg Foduro
- ◆ Gwaith Barbwr
- ◆ Therapi Harddwch
- ◆ Busnes a Gweinyddiaeth
- ◆ Gofal Plant
- ◆ Arlwyaeth a Lletygarwch
- ◆ Cyfrifiadura
- ◆ Adeiladu
- ◆ Gweithrediadau Lleoliad Treftadaeth
Greadigol a Diwylliannol
- ◆ Gwasanaeth Cwsmer
- ◆ Gosod Trydan
- ◆ Astudiaethau Ceffylau a Rheolaeth Ceffylau
- ◆ Peirianeg
- ◆ Cadwraeth Amgylcheddol
- ◆ Coedwigaeth
- ◆ Trin Gwallt
- ◆ Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- ◆ Cynnal ac Atgyweirio Cerbydau Trwm
- ◆ Ffasiwn a Thecstilau
- ◆ Peirianeg Ar Dir
- ◆ Rheolaeth
- ◆ Gweinyddiaeth Feddygol
- ◆ Gwasanaethau Ewinedd
- ◆ Gwaith Chwarae
- ◆ Gwaith Plymwr
- ◆ Coginio Proffesiynol a Gwasanaethau
Lletygarwch
- ◆ Sgiliau Adwerthu a Marsiandiaeth Weledol
- ◆ Sgiliau Menter Gymdeithasol
- ◆ Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol
- ◆ Adwerthu
- ◆ Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion
- ◆ Arwain Tîm
- ◆ Teithio a Thwristiaeth
- ◆ Weldio a Ffabrigo

Buddion ar gyfer Prentisiaid

- ◆ Byddwch yn ennill arian wrth ddysgu
- ◆ Ennill cymwysterau cydnabyddedig yn y swydd
- ◆ Hyfforddi yn y sgiliau mae cyflogwyr eu heisiau
- ◆ Profi heriau newydd a gwahanol
- ◆ Ennill sgiliau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd yn gallu cael eu defnyddio ar draws ystod o swyddi a diwydiannau
- ◆ Cael cymorth pan rydych ei angen
- ◆ Ffioedd hyfforddi i gyd wedi'u talu ar eich cyfer
- ◆ Y mwyaf rydych yn dysgu, y mwyaf rydych yn ennill

Buddion ar gyfer Cyflogwyr

- ◆ Mae 80% o'r cyflogwyr hynny sy'n cyflogi prentisiaid yn cytuno eu bod yn gwneud y gweithle yn fwy cynhyrchiol.
- ◆ Dywedodd 80% o fusnesau bod prentisiaethau yn achosi gwell cymhelliant o fewn eu gweithluoedd.
- ◆ Mae'r safonau a chymwysterau cenedlaethol wedi'u cysylltu gyda hyfforddiant ymarferol, sy'n golygu bod prentisiaid wedi eu hyfforddi'n dda ac yn gynhyrchiol a bydd hyn hefyd yn cynyddu hyder y cwsmer
- ◆ Mae prentisiaid yn dod ag adeniliad sylweddol ar eu buddsoddiad ac yn aml yn symud ymlaen i rolau uwch reolwyr.
- ◆ Mae cyflogwyr sy'n cymryd prentis i mewn ond yn gorfod talu am eu cyflog. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu am eu hyfforddiant.

Pa gymorth fyddaf yn ei gael?

Bydd Aseswr yn cael ei neilltuo ar eich cyfer a fydd yn rhoi cymorth helaeth i chi drwy gydol eich Prentisiaeth. Bydd eich Aseswr yn cynnal cysylltiadau agos gyda thiwtoriaid y Coleg a'r cyflogwr i sicrhau eich bod yn cadw ar y trywydd iawn i gwblhau eich fframwaith o gymwysterau o fewn y raddfa amser.

Bydd eich fframwaith Prentisiaeth yn cynnwys Cymhwyster Seiliedig ar Waith, Sgiliau Hanfodol Cymru a Hawliau a Chyfrifoldebau'r Gweithiwr.

Mae'r Prentisiaid fel rheol yn mynychu'r Coleg trwy gael eu rhyddhau am y dydd. Bydd eich Aseswr hefyd yn eich asesu yn y gweithle yn ôl y gofyn.

Sut i wneud cais am Brentisiaeth?

Mae'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau yn wasanaeth ar-lein am ddim sydd yn rhestru'r cyfleoedd prentisiaeth sy'n cael eu cynnig gan gyflogwyr o gwmpas Cymru ac sy'n gadael i chi eu ffiltro yn ôl sector diwydiant a lleoliad. Yn y ffordd yma byddwch yn medru paru'ch sgiliau, doniau ac uchelgeisiau gyrfa gyda'r prentisiaethau cywir.

Os ydych eisiau cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau, ewch i wefan Gyrfa Cymru: www.careerswales.com a dilynwch y ddolen prentisiaid.

Gallwch hefyd wneud cais i Goleg Ceredigion

☎ 01970 639739 ✉ apprentice@ceredigion.ac.uk

Gweithiwch eich ffordd i Brentisiaeth

Os nad ydych yn barod ar gyfer prentisiaeth eto, dyma rai opsiynau i'ch helpu i gyrraedd y lefel rydych ei hangen i wneud argraff ar gyflogwr posibl.

Hyfforddeiaethau

Rhwng 16 - 18 mlwydd oed? Wedi gadael ysgol? Heb swydd?
Yna gall hyfforddeiaeth fod yn berffaith ar eich cyfer chi.

Gallwch wella'ch siawns o gael prentisiaeth drwy ddangos i gyflogwyr posibl eich bod yn barod ar gyfer gwaith. Un ffordd o wneud hyn yw cwblhau hyfforddeiaeth. Mae'n ardderchog! Gallwch geisio gwneud gwahanol fathau o swyddi, cael profiad gwaith a dysgu sgiliau newydd hefyd. Mae'n hwyl ac mae'n rhoi'r amser i chi i feddwl am y math o swydd rydych am ei gwneud.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Choleg Ceredigion

☎ 01970 639739 ✉ apprentice@ceredigion.ac.uk

Twf Swyddi Cymru

Rhwng 16 - 24 mlwydd oed? Heb swydd? Chwilio am swydd?

Os oes gennych y sgiliau ond yn dal yn cael anhawster i gael prentisiaeth yna gall Twf Swyddi Cymru agor drws i chi. Mae'r swyddi yma yn para hyd at 6 mis a byddant yn rhoi'r cyfle i chi ennill profiad hanfodol yn y gweithle. Cymerwch y cyfle i brofi eich hun ac mae'n bosibl y byddwch yn cael cynnig swydd barhaol neu brentisiaeth.

Ewch i wefan Gyrfa Cymru am ragor o wybodaeth a dilynwch y ddolen Twf Swyddi Cymru.

Mae Coleg Ceredigion yn darparu dysgu yn y gweithle fel rhan o Consortiwm B-Wbl.

